# Rhestr Wirio Archwilio Gwefan

Diweddarwyd yn fwyaf diweddar: 13/10/2020 21:20

## Cam 1 - Gwiriad gweledol

Defnyddiwch Restr Wirio Hygyrchedd Cynnwys y We i weithio drwy gynnwys y dudalen, gan gadw cofnod o unrhyw broblemau.

## Cam 2 - Gwiriad bysellfwrdd

Adnewyddwch y dudalen a cheisiwch symud drwyddi gyda'r llygoden. Gallwch ddefnyddio bysell 'tab', a'r saethau ar y bysellfwrdd. Gwnewch nodyn o unrhyw leoliadau lle byddwch yn mynd yn sownd neu'n methu cyrraedd at rywbeth. Gwnewch nodyn o unrhyw fannau lle'r oedd ansicrwydd ynglŷn â'ch lleoliad - e.e. dim yn glir pa destun oedd wedi ei ddewis neu pa faes ffurflen yr oeddech chi ynddo.

## Cam 3 - Prawf darllenydd sgrin

Rhowch NVDA i fynd (ctrl+alt+n) a'i ddefnyddio i ddarllen y dudalen.

1. **Gwrandewch ar y dudalen gyfan**: Ins+lawr. A yw'n gwneud synnwyr? A yw'r dudalen gyfan wedi ei darllen?
2. **Penawdau**: Dychwelwch i frig y dudalen (ctrl+home), defnyddiwch H i fynd drwy'r penawdau. Defnyddiwch 1 i ddod o hyd i'r prif bennawd. A oes mwy nag 1 H1? A yw'n neidio dros benawdau ar unrhyw lefel?
3. **Dolenni cyswllt**: Dychwelwch i frig y dudalen (ctrl+home), defnyddiwch K i fynd drwy'r dolenni. A yw'n glir i le mae bob dolen yn mynd? A oes unrhyw destun dolen yn cael ei ailadrodd?
4. **Tirnodau**: Dychwelwch i frig y dudalen (ctrl+home), defnyddiwch D i fynd drwy'r tirnodau.
5. **Tablau**: Dychwelwch i frig y dudalen (ctrl+home), defnyddiwch T i fynd drwy'r tablau. Defnyddiwch saethau'r bysellfwrdd i symud

drwy’r tabl. Gwnewch yn siŵr bod modd i chi fynd i mewn i bob un o'r celloedd.

6. **Botymau** Dychwelwch i frig y dudalen (ctrl+home), defnyddiwch B i fynd drwy'r botymau.
7. **Rhestrau:** Dychwelwch i frig y dudalen (ctrl+home), defnyddiwch L i fynd drwy'r rhestrau. Defnyddiwch I i fynd drwy'r eitemau mewn rhestr.
8. **Ffurflenni**: defnyddiwch ins+bylchwr i newid i'r modd ffurflenni. Symudwch drwy'r meysydd ffurflen gan wneud yn siŵr bod y label a welwch ar y sgrin yn gysylltiedig â'r blwch yr ydych ynddo ar yr un pryd. Mae'r bylchwr yn dewis ac yn dad-ddewis blychau ticio. Defnyddiwch saethau i symud i fyny ac i lawr drwy grwpiau o fotymau radio neu flychau dewis.

Gwnewch nodyn o unrhyw adegau nad oedd y dudalen yn gwneud synnwyr, neu nad oeddech chi'n deall yr hyn yr oedd y darllenydd sgrin yn ei ddweud wrthych. Diffoddwch NVDA (ins+Q)

## Cam 4 - Profion wedi'u hawtomeiddio yn defnyddio axe

Rhedwch axe a gwnewch nodyn o unrhyw broblemau. Edrychwch ar unrhyw ran o'r dudalen a chliciwch ar 'axe' ar frig y panel archwilio. Cliciwch ar 'Analyse'.  Efallai yr hoffech chi ddad-ddocio'r panel er mwyn i chi gael gweld yn well. Gwnewch nodyn o unrhyw broblemau a amlygir. Mae croeso i chi ddefnyddio offerynnau profi eraill wedi'u hawtomeiddio, e.e. ARC neu Wave.

## Cam 5 – Newid maint y testun

Cynyddwch y maint hyd at 200% i weld a oes modd defnyddio'r dudalen ac a yw'n dal i wneud synnwyr.

## Cam 6 - Prawf ail-lifo

Cliciwch ar faint y sgrin ac edrychwch a yw'r dudalen yn ail-lifo, ynteu a yw'r cynnwys yn diflannu oddi ar ymyl y dudalen.

## Cam 7 - Prawf dalen arddull wedi'i analluogi

Diffoddwch y ddalen arddull i weld a yw'r dudalen yn dal i wneud synnwyr ac yn ddefnyddiadwy.